



Norah Fry Research Centre, University of Bristol

Cariad cudd, bywyd cudd? Archwilio pynciau o bwys i bobl ag anawsterau dysgu sy'n hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol

Mae iechyd meddyliol, emosiynol a rhywiol pobl ag anawsterau dysgu sy'n hoyw, yn lesbiaidd ac yn ddeurywiol yn cael ei beryglu gan fethiant llawer o wasanaethau i gyflawni eu dyletswydd gofal yn y maes hwn.

Gweithiodd ymchwilwyr yng Nghanolfan Ymchwil Norah Fry, Prifysgol Bryste mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Terrence Higgins a REGARD a darganfod bod rhwystrau sylweddol yn cael eu gosod ar ffordd pobl ag anawsterau dysgu rhag arfer eu hawliau dynol i gael perthnasau cydsyniol â phobl o'r un rhyw. Ymhlith y rhwystrau hyn oedd:

- Profiadau o gamwahaniaethu, aflonyddu a bwlio: Dywedodd bron pob un o'r bobl ag anhawster dysgu a gymerodd ran yn yr ymchwil iddynt gael eu bwlio neu gael aflonyddu arnynt yn uniongyrchol oherwydd eu rhywioldeb. Cafwyd llawer o'r difenwi gan aelodau agos o'r teulu. Cawsai hanner y bobl a holwyd gennym eu cam-drin yn gorfforol neu eu difenwi gan ddieithriad yn y stryd neu ar gludiant cyhoeddus. Bu llawer o sôn ganddynt am brofiadau o iselder ac unigrwydd. Soniodd dau ddyn am geisio eu lladd eu hunain, ac yr oedd un ferch wedi ei niweidio ei hun ac wedi ystyried ei lladd ei hun.
- Diffyg cefnogaeth Yr oedd ar bobl eisiau cefnogaeth i gwrdd â phobl eraill a oedd yn hoyw, yn lesbiaidd ac yn ddeurywiol, i fynd i dafarndai a chlybiau a grwpiau ac i ddod o hyd i gariadon. Er hynny, teimlai llawer nad oedd croeso iddynt gan y sîn hoyw ac yr oedd llawer o aelodau staff yn amharod i weld y gwaith hwn fel rhan o'u gwaith hwy.
- Mae methiant, ar ran llawer o wasanaethau sy'n cynnal pobl ag anawsterau dysgu, i sôn am rywioldeb a pherthnasau neu i wneud gwaith arnynt ac i gwrdd â'r safonau gofynnol yn y maes hwn. Er hynny, yr oedd nifer fach o aelodau staff mewn ychydig o'r gwasanaethau yn gwneud gwaith meddylgar ac arloesol.

Er gwaethaf y rhwystrau hyn, yr awydd i gwrdd â phobl eraill a dod i'w hadnabod oedd un o'r negeseuon cryfaf a ddaeth o'r ymchwil. Dymunai'r rhan fwyaf o bobl syrthio mewn cariad a bod â rhagor o gyfeillion hoyw a lesbiaidd.

Mae llawer iawn o negeseuon sy'n dweud wrth ddynion a merched ag anawsterau dysgu ei bod hi'n broblem iddynt fod yn rhywiol o gwbl, heb sôn am fod yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol. Er gwaethaf hyn, yr oedd pobl yn datblygu eu hunaniaeth ac yn ymdrechu i fyw bywydau rhywiol ac emosiynol llawn. Fodd bynnag, mae angen llawer o waith er mwyn sicrhau ategu a chynnal hawliau dynol pobl ag anawsterau dysgu sy'n hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol.

Cyflwyniad

Mae polisïau a deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n fwyfwy hanfodol sicrhau bod pobl ag anawsterau dysgu yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu perthnasau, gan gynnwys perthnasau rhywiol. Er hynny gall fod anghenion ychwanegol gan bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol sydd ag anawsterau dysgu neu fe allent wynebu rhwystrau neilltuol yn y rhan hon o'u bywydau, gan gynnwys rhagfarn a chamwahaniaethu yn y gymdeithas yn gyffredinol, yn ogystal â chan aelodau staff, gwasanaethau, aelodau'r teulu a chyfeillion. Gweithiodd ymchwilwyr yng Nghanolfan Ymchwil Norah Fry, Prifysgol Bryste mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth Terrence Higgins a REGARD (y mudiad cenedlaethol ar gyfer pobl ag anabledau sy'n hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol). Ariannwyd astudiaeth tair blynedd gan Y Gronfa Loteri Fawr. Y nod oedd:

- Darganfod rhagor ynghylch profiadau dynion a merched hoyw, lesbiaidd a deurywiol ag anawsterau dysgu;
- Archwilio pa fathau o rwystrau neu ragfarn y maent yn cwrdd â hwy; gweld sut y maent wedi eu cefnogi (neu heb eu cefnogi) gan y gwasanaethau a'r gweithwyr proffesiynol y maent yn ymwneud â hwy;
- Adnabod syniadau, ac yna cynhyrchu adnoddau, ar gyfer hyfforddiant ac ar gyfer datblygu polisïau a fyddai'n eu galluogi i dderbyn y gefnogaeth gadarnhaol y mae arnynt ei hangen yn y maes hwn.

Ynghylch yr astudiaeth

Gwnaed yr ymchwil mewn tri cham:

1. Cyfweiliadau â 71 aelod staff mewn 20 gwasanaeth anabledd dysgu ledled y Deyrnas Gyfunol ynghylch eu barn a'u profiadau o weithio â phobl ag anawsterau dysgu a oedd, neu a allai fod wedi bod, yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol.
2. Cyfweiliadau ag 20 o ferched a dynion a oedd ag anawsterau dysgu ac a oedd yn cynnal, neu'n dymuno cynnal, perthynas â rhywun o'r un rhyw.

3. Cynhyrchu adnoddau ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu ac ar gyfer aelodau staff.

Casgliadau: Profiadau pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol ag anawsterau dysgu

Teimladau cyntaf a 'dod allan' – Soniodd pawb ohonynt wrthym am deimlo atyniad at bobl o'r un rhyw yn eu harddegau. Yr oedd pob un o'r dynion a'r merched a holwyd allan i un unigolyn arall o leiaf. Prif bwyslais hanesion pobl am ddod allan oedd ar eu pryder ac ofn ynghylch cael eu gwrthod ac, wedyn, teimlad cryf o ryddhad pan dderbyniwyd y newyddion yn ffafriol (os felly). Un o'r ofnau ynghylch dod allan oedd y gellid gofyn i bobl adael gwasanaethau neu fudiadau a oedd o werth iddynt.

Teimladau ynghylch bod yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol – Bu i bron bob un o'r dynion a holwyd ei ddisgrifio ei hun fel hoyw. Bu i tua hanner y merched eu disgrifio eu hunain fel merched deurywiol a hanner fel lesbiaid. Yr oedd llawer ohonynt wedi teimlo (ac yr oedd nifer fach yn parhau i deimlo) bod rhywbeth o'i le ar eu rhywioldeb.

Homoffobia a chamwahaniaethu – Soniodd 19 o'r 20 a holwyd iddynt gael eu bwlio, neu gael pobl yn aflonyddu arnynt, yn uniongyrchol oherwydd eu rhywioldeb. Cafwyd llawer o'r difenwi gan aelodau agos o'r teulu. Yr oedd sawl un wedi dioddef homoffobia uniongyrchol neu anuniongyrchol gan weithwyr proffesiynol, a soniodd pedwar unigolyn wrthym am gamwahaniaethu neu aflonyddu difrifol yn y gwaith. Cawsai hanner y bobl a holwyd gennym eu cam-drin yn gorfforol neu eu difenwi gan ddieithriaid yn y stryd neu ar gludiant cyhoeddus. Bu llawer o sôn ganddynt am brofiadau o iselder ac unigrwydd. Soniodd dau ddyn wrthym am geisio eu lladd eu hunain, ac yr oedd un ferch wedi ei niweidio ei hun ac wedi ystyried ei lladd ei hun.

Cwrdd â phobl eraill sydd yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol – Yr oedd rhaniad go gyfartal rhwng pobl a adwaenai gryn nifer o bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol eraill, a'r

Un o'r negeseuon cryfaf a fynegid yn ein cyfweiliadau oedd yr awydd i gwrdd â phobl eraill a dod i'w hadnabod. Yr oedd y rhan fwyaf o'r bobl wedi ymweld â thafarndai neu glybiau i bobl hoyw. Yr oedd rhai wedi mwynhau hyn, ond teimlai eraill wedi'u heithrio o'r sîn, neu fod camwahaniaethu yn eu herbyn neu'n syml nad oeddent yn mwynhau hyn.

Bod mewn perthynas – nid oedd ond nifer fach o'r bobl mewn perthnasau rhywiol/cariadus adeg eu holi, er bod gan y rhan fwyaf ohonynt brofiad o fod mewn perthynas rywryd yn ystod eu bywydau. Clywsom hanesion am yr holl bethau cadarnhaol a'r holl bethau anodd ynghylch bod mewn perthynas. Un o'r nodweddion mwyaf cadarnhaol oedd cael rhywun i rannu gweithgareddau bob dydd.

Pa gefnogaeth sydd ei heisiau ar bobl? – Yr oedd ar bobl eisiau i aelodau staff fod yn gefnogol ac i beidio â bod yn feirniadol ynghylch eu rhywioldeb. Clywsom rai hanesion ynghylch gweithwyr proffesiynol unigol ac ynghylch rhai gwasanaethau sy'n gwneud gwaith cadarnhaol iawn sy'n canolbwyntio ar unigolion er mwyn iddynt ddatblygu eu rhywioldeb neu fyw bywyd rhywiol. Er hynny, clywsom hefyd am sawl achos o aelodau staff a gwasanaethau a fu'n anghefnogol neu'n elyniaethus. Yn y bôn, yr oedd ar bobl eisiau cefnogaeth ymarferol gan aelodau staff i gwrdd â phobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol eraill, a dymunent i'r gweithwyr weld hyn fel rhan ddilys o'u swydd.

Gobeithion a dyheadau – Dymunai pump o'r rhai a holwyd gael plant rywryd yn y dyfodol, er i bedwar ohonynt ddweud fod aelodau staff ac aelodau'r teulu'n dwyn llawer o berswâd arnynt i beidio. Soniodd bron pawb arall am eu gobeithion ar gyfer y dyfodol o ran bod mewn perthynas.

Casgliadau: Barn a phrofiadau aelodau staff

Ymdrin â gwaith ar ryw a rhywioldeb – Yn y mwyafrif o wasanaethau, ni châi pynciau rhyw, rhywioldeb a pherthnasau eu cyflwyno mewn grwpiau, gweithgareddau neu gynlluniau oni bai i ddefnyddwyr y gwasanaeth fynd ati i'w codi.

Yr oedd nifer fach o aelodau staff mewn ychydig o wasanaethau yn arfer dull gwahanol ac yn achub y blaen wrth godi'r pynciau hyn.

Rhwystrau i weithio yn y maes hwn – Yr oedd pryderon – a rhywfaint o ddiffyg awydd – ynghylch gwneud gwaith yn y maes hwn. Yr oedd a wnelo'r rhain â diffyg profiad a diffyg hyder, bylchau mewn polisiau ac yn narpariaeth] hyfforddiant, ag agweddau rhagfarnllyd a phryderon ynghylch adweithiau gwrthwynebus (o bosibl) gan bobl eraill, gan gynnwys rhieni, gofalgwyr a chydweithwyr eraill.

Homoffobia a heterorywiaeth mewn gwasanaethau – Dywedodd y rhan fwyaf o aelodau staff eu bod yn gweithio mewn gwasanaethau ac mewn timau staff nad oedd yn homoffobaidd ond a oedd yn weddol heterorywiaethol, neu'n heterorywiaethol iawn. Yr oedd y rhan fwyaf, ond nid y cyfan, o aelodau staff hoyw, lesbiaidd a deurywiol allan i rai o'u cydweithwyr. Nid oedd ond ychydig iawn, o aelodau staff hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol allan i ddefnyddwyr gwasanaethau, er bod rhai felly. Cawsai rhai aelodau staff a oedd yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol eu herio gan eu cydweithwyr ynghylch eu hymwneud â defnyddwyr hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol y gwasanaeth.

Profiadau aelodau staff o ran pobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol ag anawsterau dysgu – Dywedodd y mwyafrif llethol o'r aelodau staff iddynt adnabod, ar y pryd neu o'r blaen, ddynion a merched ag anawsterau dysgu a oedd mewn perthynas â rhywun o'r un rhyw, neu a ddymunai berthynas felly.

Preifatrwydd – Dywedodd aelodau staff nad oedd llawer o fannau lle gallai dynion a merched ag anawsterau dysgu fynd i fod yn breifat gyda'i gilydd er mwyn ymddwyn fel cariadon a/neu gael rhyw.

Perthynas merched â merched – Dywedodd aelodau staff fod perthnasau cariadus neu rywiol merched â'i gilydd ar y cyfan yn rhai cudd. Disgrifid mynegi cariad a chyffwrdd rhwng merched yn bethau platonaid a heb fod yn eu hanfod yn broblem.

Cefnogi perthynas – Yr oedd peth rhwystredigaeth ymhlith aelodau staff na themlent y gallent roi cefnogaeth i ddynion a merched ag anawsterau dysgu i gyrraedd eu nod o fod mewn perthynas. Er hynny, yr oedd sawl enghraifft gadarnhaol o aelodau staff a gwasanaethau'n gweithio mewn ffyrdd arloesol a meddylgar i gefnogi pobl yn y rhan hon o'u bywydau.

Casgliad: Cariad cudd, bywyd cudd?

Bu ugain o bobl hoyw, lesbiaidd a deurywiol yn cymryd rhan yn yr ymchwil hon. Yr oedd yn gymharol hawdd dod o hyd i ddynion i'w holi, ond bu'n ymdrech inni ddod o hyd i naw o ferched lesbiaidd neu ddeurywiol yn y cyfan o'r Deyrnas Gyfunol. Ymddengys fod perthynas merched â merched eraill yn parhau'n fwy cudd na rhai dynion â dynion.

Yn ôl y dynion a merched ag anawsterau dysgu y cwrddasom â hwy, yr oedd bod yn hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn rhan bwysig o'u hunaniaeth. Yr oedd yn rhan ohonynt hwy eu hunain y dymunai'r rhan fwyaf ohonynt ei ddatblygu'n rhagor. Er gwaethaf y rhwystrau i wneud hyn, un o nodweddion hanesion pobl ynghylch eu rhywioldeb oedd eu gwytnwch a'u strategaethau llwyddiannus ar gyfer dod o hyd i gefnogaeth. Yr oedd cariad yn bwnc trafod pwysig yn ystod ein cyfweiliadau ymchwil ac yr oedd gan berthnasau ran bwysig yng ngobeithion a dyheadau pobl ar gyfer y dyfodol.



Norah Fry Research Centre
University of Bristol

© 2005

Adnoddau a chrynodeb 'hawdd ei ddarllen'

Mae 'Cariad cudd, bywyd cudd? Archwilio pynciau o bwys i bobl ag anawsterau dysgu sy'n hoyw, yn lesbiaidd neu ddeurywiol' gan David Abbott a Joyce Howarth. Fe'i cyhoeddir gan The Policy Press ac fe'i ceir gan Marston Book Services

Ffôn: +44 (0)1235 465500;

Ffacs: +44 (0)1235 465556;

E-bost: direct.orders@marston.co.uk

Ewch, os gwelwch yn dda at adran 'Online documents' gwefan Norah Fry ar gyfer gwybodaeth ynghylch y dogfennau canlynol:

www.bris.ac.uk/norahfry

1. Fersiwn 'hawdd ei ddarllen' o'r crynodeb hwn.
2. 'Phil's story': hanes mewn ffotograffau am ddyn hoyw ag anawsterau dysgu.
3. 'Jan's story': hanes mewn ffotograffau am ferch lesbiaidd ag anawsterau dysgu.
4. Llyfryn am homoffobia a heterorywiaeth ar gyfer pobl ag anawsterau dysgu a'r aelodau staff sy'n eu cefnogi.
5. Pecyn adnoddau sy'n cynnwys gwybodaeth, syniadau ac awgrymiadau ar gyfer hyfforddiant ynghylch rhywioldeb, i'w ddefnyddio gan aelodau staff sy'n gweithio â phobl ag anawsterau dysgu.